DISGRIFIAD SWYDD

Teitl swydd	Uwch Swyddog Cyfryngau
Band cyflog	5
Pwrpas y rôl	Cynorthwyo'r Pennaeth Cyfathrebu i weithredu strategaeth gyfathrebu allanol Llais Defnyddwyr drwy feithrin cyswllt â'r cyfryngau er mwyn gwarchod, cynnal a gwella enw da'r sefydliad.
Yn adrodd i	Rheolwr Cysylltiadau'r Cyfryngau
Adroddiadau uniongyrchol	Dim
Cysylltiadau Allweddol (ymhlith cymheiriaid)	Tîm Materion Cyhoeddus Timau rhaglen
Prif gyfrifoldebau	• Llunio a gweithredu cynlluniau cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau sy'n ategu'r strategaeth fel y pennir gan y Pennaeth Cyfathrebu, er mwyn hyrwyddo prosiectau, digwyddiadau a datblygiadau Llais Defnyddwyr ar draws y cyfryngau cenedlaethol, rhanbarthol ac arbenigol. • Dynodi prosiectau sy'n haeddu sylw yn y newyddion a ffyrdd effeithiol o gyfleu gwaith y sefydliad i'r cyfryngau (gan ddefnyddio astudiaethau achos, nodweddion gwerthu, sefydliadau, cynadleddau/briffiau ar gyfer y cyfryngau) er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r sefydliad ymhlith y cyhoedd. • Yn gyfrifol am ddeunyddiau'n ymwneud â phynciau penodol gan gynnwys datganiadau i'r wasg, ymatebion i'r cyfryngau, erthyglau, llythyrau a briffiau. • Darparu briffiau ar gyfer y cyfryngau i Gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol Llais Defnyddwyr yn ogystal â'r staff eraill ynghylch cyfweliadau â'r cyfryngau er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad ddelwedd broffesiynol. • Fel aelod o dîm prosiect, rhoi cyngor arbenigol ar gyfathrebu a chefnogi gwaith hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol rhwng y tîm cyfathrebu a staff eraill Llais Defnyddwyr. • Ymchwilio a chasglu gwybodaeth yn ôl y gofyn, a fydd yn sail neu'n ategu gwaith polisi cyfredol. • Cynorthwyo'r Prif Swyddog Gweithredol, y Cadeirydd ac eraill i ysgrifennu areithiau yn ôl yr angen. • Meithrin a chynnal cysylltiadau eang o fewn y cyfryngau a chyda chyrff perthnasol eraill.

Gwybodaeth a Sgiliau	Bydd gan ddeilydd y swydd y profiad a'r wybodaeth ganlynol: • Addysg at lefel gradd, neu brofiad neu gymhwyster perthnasol cyfatebol • Y gallu i gyfleu gwybodaeth ddyrys mewn fformat sy'n hwylus i'r cyfryngau • Sgiliau dadansoddi rhagorol a barn broffesiynol gadarn • Profiad cadarn o'r cyfryngau, gwaith cysylltiadau cyhoeddus a materion cyhoeddus mewn corff uchel ei broffil • Profiad helaeth o ddatblygu a gweithredu ymgyrchoedd cysylltiadau cyhoeddus/cyfryngau llwyddiannus • Profiad o ysgrifennu areithiau • Gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o gyfryngau'r DU • Profiad o reoli prosiect (dymunol)
Cymwyseddau	Dynodi cymhwysedd a'r lefel ofynnol: • Dylanwadu pwrpasol ac ymatebol – Lefel 2 • Hidlo, barnu a gweithredu – Lefel 2 • Uniondeb – Lefel 2 • Troi geiriau'n weithredoedd o ran gwasanaeth i gwsmeriaid – Lefel 2 • Gweithio ynghyd er budd y busnes – Lefel 3 • Meithrin cysylltiadau – Lefel 1
Lleoliad	Llundain, gyda theithio achlysurol ledled y Deyrnas Unedig